Rhybudd o Benderfyniadau **Cyfarfod y Cabinet** a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell ar **Ddydd Mawrth, 3 Medi 2024**

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5.00pm Dydd Iau, 5 Medi 2024. Y dyddiad olaf i dderbyn cais i alw unrhyw benderfyniad i mewn yw 5.00pm Dydd Iau, 12 Medi 2024 drwy ei anfon at Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) Dydd Gwener, 13 Medi 2024.

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Bryan Davies (Cadeirydd), y Cynghorwyr Catrin M S. Davies, Clive Davies, Gareth Davies, Keith Henson, Wyn Thomas, Matthew Vaux ac Alun Williams.

HEFYD YN BRESENNOL: Y Cynghorwyr Shelley Childs, Euros Davies, Gethin Davies, Ifan Davies, Marc Davies, Meirion Davies, Rhodri Davies, Amanda Edwards, Endaf Edwards, Elizabeth Evans, Eryl Evans, Gwyn Wigley Evans, Raymond Evans, Rhodri Evans, Wyn Evans, Hugh Hughes, Ceris Jones, Gareth Lloyd, Ann Bowen Morgan, Caryl Roberts a Carl Worrall.

(10.00am- 2.01pm)
(2.16pm- 2.18pm)
(3.17pm- 9.17pm)

43 Ymddiheuriadau

i. Ymddiheurodd y Cynghorydd Gareth Davies y byddai'n gadael y cyfarfod yn gynnar.
ii. Ymddiheurodd y Cynghorydd Elaine Evans, Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol am nad oedd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod.
iii. Ymddiheurodd James Starbuck, Cyfarwyddwr Corfforaethol a Donna Pritchard, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Gofal am nad oeddent yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod.

44 Materion Personol

i. Estynnwyd cydymdeimlad i deulu'r Cynghorydd Paul Hinge a fu farw'n ddiweddar. Talwyd teyrnged i'r Cynghorydd Paul Hinge am ei gyfraniad helaeth i wleidyddiaeth yng Ngheredigion. Estynnwyd cydymdeimlad diffuant i'w deulu.
ii. Estynnwyd cydymdeimlad i deulu Rhian Thomas, cyn-gyfrifydd Grŵp yn y Gwasanaeth Cyllid sydd wedi marw yn ddiweddar.
Cafwyd munud o dawelwch i gofio amdanynt.
iii. Estynnwyd cydymdeimlad hefyd i deulu Margaret Jones, artist nodedig sydd wedi marw yn ddiweddar.
iv. Estynnwyd llongyfarchiadau i bawb a fu'n rhan o gynnal Rali Ceredigion lwyddiannus. Nodwyd bod y digwyddiad diweddar wedi cyfrannu'n helaeth at yr economi leol.
v. Estynnwyd llongyfarchiadau i Wasanaethau Addysg yr awdurdod lleol am adroddiad rhagorol yn dilyn arolygiad cynhwysfawr gan Estyn, corff arolygu addysg genedlaethol.
vi. Estynnwyd llongyfarchiadau hefyd i Gartref Gofal Preswyl Hafan y Waun a phawb a gymerodd ran wrth dderbyn adroddiad cadarnhaol yn dilyn yr

arolygiad cyntaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ers newid perchnogaeth.

45 Datgelu buddiannau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu

i. Datganodd y Cynghorydd Keith Henson fuddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu mewn perthynas ag eitem 55 a gadawodd y cyfarfod pan oedd y mater hwnnw'n cael ei drafod.
ii. Datganodd y Cynghorydd Clive Davies fuddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu mewn perthynas ag eitem 56 a gadawodd y cyfarfod pan oedd y mater hwnnw'n cael ei drafod.
iii. Datganodd y Cynghorydd Carl Worrall fuddiant personol mewn perthynas ag eitem 55.
iv. Datganodd Elin Prysor, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyfreithiol a Llywodraethu fuddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu mewn perthynas ag eitem 56, yn unol â'r Cod Ymddygiad ar gyfer Gweithwyr Llywodraeth Leol a gadawodd y cyfarfod pan oedd y mater hwnnw'n cael ei drafod.

46 Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Blaenorol y Cabinet ac unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion hynny

Cadarnhau bod cofnodion Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 17 Gorffennaf 2024 yn gywir.

Materion yn codi: Nid oedd materion yn codi o'r cofnodion.

47 Unrhyw ddeisebau a dderbyniwyd

Dim.

48 Unrhyw benderfyniadau (os oes rhai) a alwyd i mewn gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu

Dim.

49 Unrhyw adborth gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu sydd ddim ar yr agenda

Dim.

50 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Ysgolion ynghylch Papur Cynnig o ran Ysgol Craig yr Wylfa

PENDERFYNIAD:
Cymeradwyo'r cynnig i ddechrau ar y broses o gynnal ymgynghoriad statudol er mwyn dod i ben â'r ddarpariaeth yn Ysgol Craig yr Wylfa o 31 Awst 2025.

Y *rheswm dros y penderfyniad:*
Cymeradwyo dechrau ar y broses o gynnal ymgynghoriad statudol ar y ddarpariaeth yn Ysgol Craig yr Wylfa.

51 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Ysgolion ynghylch Papur Cynnig o ran Ysgol Llanfihangel y Creuddyn

PENDERFYNIAD:

Cymeradwyo'r cynnig i ddechrau ar y broses o gynnal ymgynghoriad statudol er mwyn dod i ben â'r ddarpariaeth yn Ysgol Llanfihangel y Creuddyn o 31 Awst 2025.

Y *rheswm dros y penderfyniad:*

Cymeradwyo dechrau ar y broses o gynnal ymgynghoriad statudol ar y ddarpariaeth yn Ysgol Llanfihangel y Creuddyn.

52 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Ysgolion ynghylch Papur Cynnig o ran Ysgol Llangwyryfon

PENDERFYNIAD:

Cymeradwyo'r cynnig i ddechrau ar y broses o gynnal ymgynghoriad statudol er mwyn dod i ben â'r ddarpariaeth yn Ysgol Llangwyryfon o 31 Awst 2025.

Y *rheswm dros y penderfyniad:*

Cymeradwyo dechrau ar y broses o gynnal ymgynghoriad statudol ar y ddarpariaeth yn Ysgol Llangwyryfon.

53 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Ysgolion ynghylch Papur Cynnig o ran Ysgol Syr John Rhys

PENDERFYNIAD:

Cymeradwyo'r cynnig i ddechrau ar y broses o gynnal ymgynghoriad statudol er mwyn dod i ben â'r ddarpariaeth yn Ysgol Syr John Rhys o 31 Awst 2025.

Y *rheswm dros y penderfyniad:*

Cymeradwyo dechrau ar y broses o gynnal ymgynghoriad statudol ar y ddarpariaeth yn Ysgol Syr John Rhys.

54 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Pobl a Threfniadaeth ynghylch Polisïau Newydd Adnoddau Dynol gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu

PENDERFYNIAD:

- Cymeradwyo'r Polisi Recriwtio Diogel.
- Cymeradwyo'r Cynllun Prynu Gwyliau Ychwanegol.
- Cymeradwyo'r Canllaw Teithio, Cynhaliaeth a Llety.
- Nodi adborth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol.

Y *rheswm dros y penderfyniad:*

- Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth.
- Er mwyn cynorthwyo gweithgarwch recriwtio a chadw, iechyd a lles cyflogeion, ac effeithiolrwydd gweithredo.

55 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Gofal ynghylch Cartref Gofal Preswyl Cartref Tregerddan - Ymgynghoriad Cyhoeddus gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu

PENDERFYNIAD:

1. Nodi'r cefndir a'r rhesymeg dros ystyried trosglwyddo preswylwyr ac uno timau staff rhwng Cartref Tregerddan i Gartref Gofal Preswyl Hafan y Waun.
2. Nodi canlyniadau proses yr ymgynghoriad a gynhaliwyd rhwng 22ain Ebrill 2024 a 15fed Gorffennaf 2024.
3. Cymeradwyo trosglwyddo preswylwyr ac uno timau staff rhwng Cartref Tregerddan gyda Chartref Gofal Preswyl Hafan y Waun.
4. Awdurdodi'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Porth Gofal i:
    i. Sicrhau bod amserlen yn cael ei llunio ar gyfer trosglwyddiadau'r preswylwyr rhwng cartrefi, mewn ffordd sydd
        a. yn cydbwyso'r angen i bob unigolyn a'i deulu gael amser priodol i wneud penderfyniadau yn erbyn yr angen cyffredinol am y broses gau,
        b. i'w rheoli o fewn amserlen sy'n lleihau ansicrwydd i'r preswylwyr, teuluoedd a staff.
5. Nodi adborth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach.

Y *rheswm dros y penderfyniad:*
Gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd o fewn Hafan y Waun gan gynnwys yr amgylchedd, y lleoliad ac i nodi cyfleoedd yn y dyfodol i reoli heriau'r gyllideb yn effeithiol.

56 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol ynghylch Cynigion yr adolygiad ar y Meysydd Parcio Talu ac Arddangos oddi ar y stryd, Mehefin 2024 gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu

PENDERFYNIAD:

Cytuno:

a) bod swyddogion yn mynd ati i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynigion a gyflwynwyd gan y swyddogion i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus ar 11 Gorffennaf 2024, ond bod y cynnig i godi tâl ar ddeiliaid Bathodynnau Glas yn cael ei adael allan a bod y cynnig i godi tâl a geir yn Atodiad B yn cael ei fewnosod yn lle'r Tabl 2 a gyflwynwyd; a hefyd
b) bod adroddiad ar ganlyniad yr ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus cyn i'r Cabinet ystyried y cynigion a chytuno arnynt yn derfynol.
c) Nodi adborth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus.

Y *rheswm dros y penderfyniad:*
I sicrhau bod y disgwyliad o ran incwm - a gytunwyd gan y Cyngor fel rhan o'r broses o osod cyllideb 24/25 - yn cael ei gyflawni, gan symleiddio'r taliadau a'r trefniadau presennol.

57 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol ynghylch Cynigion ynghylch Codi Tâl am Barcio ar y Stryd - Promenâd Aberystwyth gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu

PENDERFYNIAD:

i. Cefnogi cynnal proses ymgynghori ffurfiol o dan *Reoliadau Gorchmynion Traffig (Gweithdrefn)(Cymru a Lloegr) 1996 (diwygiedig)* ynglŷn â'r cynigion a gyflwynwyd ynghylch codi tâl am barcio ar hyd y Promenâd yn Aberystwyth.
ii. Bod canlyniad yr ymgynghoriad yn cael ei adrodd gerbron y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus a'r Cabinet cyn y gwneir unrhyw benderfyniad ynghylch gweithredu'r cynnig.
iii. Nodi adborth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus.

Y *rheswm dros y penderfyniad:*
Fel y gall y Cyngor reoli'n well y ddarpariaeth barcio ar hyd y Promenâd yn Aberystwyth gyda'r bwriad o gynyddu nifer y llefydd parcio sydd ar gael a sicrhau bod mwy o gerbydau yn mynd a dod.

58 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol ynghylch Gwasanaeth y Gaeaf gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu

PENDERFYNIAD:

i. Cymeradwyo'r matrics asesu diwygiedig (Atodiad B).
ii. Nodi adborth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus.

Y *rheswm dros y penderfyniad:*
Er mwyn sicrhau bod yr Awdurdod yn parhau i fodloni ei ofynion mewn perthynas â hyd y llwybrau cynnal a chadw cyn-drin yn y gaeaf yn dilyn meini prawf uchder.

59 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol ynghylch Gorchymyn Cyngor Sir Ceredigion (Gwahardd a Chyfyngu Aros a Llwytho a Dadlwytho) 2019 (Felin-fach) (Gorchymyn Diwygio Rhif 12) 2024

PENDERFYNIAD:
Cymeradwyo gwneud y Gorchymyn a chyhoeddi'r Hysbysiad priodol yn y wasg i'r perwyl hynny.

Y *rheswm dros y penderfyniad:*
Sicrhau diogelwch y ffyrdd ar bwys y mynediad i'r ysgol newydd.

60 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol ynghylch Mabwysiadu 'Cae'r Henwas', Caerwedros

PENDERFYNIAD:
Cytuno i gynnal gwaith priffyrdd Cae'r Henwas fel y manylir yn Atodiad A ar draul y cyhoedd a'i fabwysiadu gan y Cyngor.

Y *rheswm dros y penderfyniad:*
Er mwyn galluogi'r briffordd newydd i gael ei chynnal ar draul y cyhoedd er budd y cyhoedd/cymuned gyffredinol.

61 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol ynghylch Trwyddedau Bargodi o dan adran 177 o Ddeddf Priffyrdd 1980

PENDERFYNIAD:
Cymeradwyo:

a) bod Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol yn codi ffi o £500; a hefyd
b) bod y Gwasanaethau Cyfreithiol yn codi ffi o £471;

am amser y swyddogion mewn perthynas â chyflwyno trwyddedau Bargodi o dan adran 177 o Ddeddf Priffyrdd 1980, mewn grym o 1/9/24 ymlaen.

Y *rheswm dros y penderfyniad:*
Adennill costau.

62 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cynnal ynghylch y Cynllun Llety â Chymorth gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu

PENDERFYNIAD:

1. Cymeradwyo'r Polisi a'r Cynllun Llety â Chymorth.
2. Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Cyfarwyddwr Gofal Cymdeithasol Statudol weithredu polisi ac adolygu yn flynyddol.
3. Nodi adborth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach.

Y *rheswm dros y penderfyniad:*
I gyd-fynd â'r "Rheoliadau Gofal a Chymorth (Dewis o Lety) (Cymru) 2015".

63 Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cynnal ynghylch Adroddiad Rheoli Perfformiad y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol Chwarter 3 2023 - 2024

Nodwyd yr adroddiad.

64 Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cynnal ynghylch Adroddiad Diogelu Grŵp Gweithredol Lleol ar y Cyd CYSUR/CWMPAS - Chwarter 3 2023/24

Nodwyd yr adroddiad.

65 Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael ynghylch Adroddiad Monitro'r Rhaglen Gyfalaf Chwarter 1

Nodwyd yr adroddiad.

66 Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael ynghylch Cyllideb Refeniw Reoladwy 24/25 - Perfformiad Ariannol - Chwarter 1

Nodwyd yr adroddiad.

67 **Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael ynghylch Adroddiad Perfformiad Chwarterol Rheoli'r Trysorlys 2024/25**
Nodwyd yr adroddiad.

68 **Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd fod arno angen sylw brys gan y Cabinet**
Dim.

Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 1 Hydref 2024

Cadeirydd: _____

Dyddiad: _____